# Y Pwyllgor Archwilio

## Cofnodion AC(2) 09-06

### Dyddiad y cyfarfod: 12 Hydref 2006
### Amser y cyfarfod: 9.30am – 12.30pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd

#### Aelodau’r Cynulliad yn bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Irene James | Islwyn |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Catherine Thomas | Llanelli |

#### Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Jeremy Colman | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Matthew Mortlock | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Anthony Snow | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Mike Usher | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Ceri Stradling | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Neville Andrews | Swyddfa Archwilio Cymru |

| | |
|---|---|
| David Powell | Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad |

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Syr Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Bernard Galton | Cyfarwyddwr Grwp Adnoddau Dynol Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Peter Kennedy | Pennaeth Is-adran Adnoddau Dynol (Cyflenwi) Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Kathryn Jenkins | Clerc y Pwyllgor |
| Daniel Collier | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.

1.2 Cafwyd ymddiheuriad gan Denise Idris Jones. Doedd dim dirprwyon na datganiadau o fuddiannau.

**Eitem 2: Rheoli absenoldeb oherwydd salwch yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru Papur: AC(2) 09-06(p1)**

2.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Syr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bernard Galton, Cyfarwyddwr Grwp Adnoddau Dynol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Peter Kennedy, Pennaeth Is-adran Adnoddau Dynol (Cyflenwi) Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Pwyntiau gweithredu**

Cytunodd Syr Jon Shortridge y byddai'n rhoi'r canlynol i'r Pwyllgor:

- Copi o siart rheoli gyda ffigurau i gymharu lefelau absenoldeb 2006 â 2005, sy'n dangos sut mae'r sefydliad yn cynnal y gostyngiadau mewn lefelau absenoldeb drwy'r strategaethau ar gyfer uno ac adleoli'r cyrff cyhoeddus a oedd yn cael eu noddi gan y Cynulliad.
- Manylion rheolau Swyddfa'r Cabinet sy'n llywodraethu tâl salwch galwedigaethol sy'n

datgan y byddai digwyddiadau lle mae’r staff yn dod yn absennol ar ôl 11am yn cael eu cyfrif fel dyddiau sero ar system y gyflogres.
- Manteision ariannol y swyddogaeth cofnodi presenoldeb yn system adnoddau dynol Snowdrop.

**Eitem 3: Rhaglen archwiliadau gwerth am arian**
**Papur: AC(2) 09-06(p2)**

3.1 Ystyriodd y Pwyllgor effaith gwaith gwerth am arian Archwilydd Cyffredinol Cymru dros y flwyddyn flaenorol a chynigion ar gyfer archwiliadau i’w dechrau yn 2007-08. Addawodd yr Archwilydd Cyffredinol y byddai’n ystyried sylwadau’r Aelodau wrth ddrafftio’i gynigion terfynol, a fyddai’n dod gerbron cyfarfod yn y dyfodol.

**Eitem 4: Amcangyfrif o incwm a chostau Swyddfa Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2006.**
**Papur: AC(2) 09-06(p3)**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor amcangyfrif Archwilydd Cyffredinol Cymru o incwm a chostau Swyddfa Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2008. Roedd y Pwyllgor yn fodlon.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: AC(2) 08-06(mins)**

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2006.

**Papur i’w nodi:**
**Papur: AC(2) 09-06(p4)**

Nododd yr Aelodau yr ohebiaeth oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch Llawfeddygaeth Ddydd yng Nghymru.

Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.24 (vi)

**Sesiwn Preifat**

**Eitem 6: Adroddiadau drafft y Pwyllgor Archwilio A yw’r GIG yng Nghymru yn ymdopi o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael iddo? a Dysgu Seiliedig ar Waith – Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: Setliadau Ariannol 2004-05**
**Papur: AC(2) 09-06(p5), AC(2) 09-06(p6)**

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiadau drafft.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Hydref 2006**